# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


16.04.21

Annwyl Riant / Gofalwr

**Croeso yn ôl i'r holl ddisgyblion yn ystod wythnos gyntaf tymor yr haf**. Gobeithio i chi gyd gael seibiant addas. Mae'n hyfryd bod yn ôl ar ddiwrnod cyntaf y tymor!

Er bod cyfraddau heintiau covid yn dal i fod yn gymharol isel, byddwn yn dal i'ch annog i ddilyn holl ganllawiau'r llywodraeth i sicrhau diogelwch cymuned yr ysgol.

A gaf i atgoffa rhieni ar ôl dychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- peswch newydd neu barhaus
- Tymheredd uchel
- Colli blas neu arogl

Rhowch wybod i'r ysgol **ar unwaith** os oes unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

**Clwb Gofal**

Mae trafodaeth yn dal i gael ei chynnal ynghylch ailagor clybiau ar ôl ysgol a byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl!

**Nosweithiau Rhieni ac Adroddiadau**

Mae nosweithiau rhieni ar y gweill ar gyfer y pythefnos yn dilyn gwyliau'r Sulgwyn - wythnosau'n dechrau 7.6.21 a 14.6.21. Fe'ch hysbysir yn agosach at y dyddiad pan fyddwch yn gallu bwcio slot amser i siarad ag athro dosbarth eich plentyn. Byddwch hefyd yn derbyn adroddiad ysgrifenedig arall ar ddiwedd tymor yr haf yn seiliedig ar y fformat a dderbyniwyd cyn y Nadolig. Oherwydd y sefyllfa cyfredol, ni fydd asesiadau diwedd cyfnod allweddol (Bl 2 a 6) eto eleni.

**Taliadau cinio ysgol - Talu trwy SQUID**

Gwnewch yn siŵr bod eich holl daliadau am ginio ysgol yn gyfredol. Rhaid i unrhyw ddiffyg taliadau cael ei dalu gan yr ysgol! Golyga hyn y bydd arian sy'n hanfodol i gefnogi pob disgybl yn ei addysg yn lleihau.

**PTA / CRA**

*Diolch enfawr* i Louise a'r tîm a ddaeth i mewn dros wyliau'r Pasg i wneud gwaith cynnal a chadw a garddio. Mae staff yr ysgol a phob disgybl yn gwerthfawrogi'n fawr yr ymdrech i gadw'r ysgol yn edrych yn dwt a thaclus.

Diolch am eich amynedd, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad.

Yn gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham

Pennaeth


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**